CREST AWARDS

GWOBR EFYDD

# Her bom bath

10H

Yn gyffredinol, 10+ o waith prosiect.
Yn addas i bobl ifanc 11 i 14 oed



Dylunio a gwneud project

Ymchwiliwch i ddod o hyd i'r rysáit gorau ar gyfer bomiau bath cartref.

#cartref
#cemeg
#peirianneg



# SUT I GYNNAL CREST GAN DDEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ydych chi'n chwilio am gymorth? Gallwch ddod o hyd i Fentor drwy gysylltu â'ch hyb Llysgenhadon STEM lleol: https://www.stem.org.uk/stem-ambassadors/local-stem-ambassador-hubs

## I ddefnyddio eu prosiect i gyflawni Gwobr Efydd CREST, bydd yn rhaid i'ch myfyriwr:

- Gwblhau o leiaf 10 awr o waith prosiect
- Ystyried effaith ehangach ei brosiect a dangos
- Cwblhau llyfr gwaith y prosiect neu adroddiad byr ar ffurf arall
- Adfyfyrio ar ei waith yn ystod y prosiect gan ddefnyddio ffurflen proffil myfyriwr

### Paratoi

Ydych chi'n barod i gychwyn arni gyda CREST? Cofrestrwch am gyfrif CREST yma: **www.crestawards.org/sign-in**

Creu prosiect Gwobr Efydd newydd gydag enw(au) y myfyriwr/wyr a theitl y prosiect. Os nad oes gennych yr holl fanylion, gallwch lenwi'r rhain yn hwyrach!

### Cwblhau'r prosiect

Mae gennym lyfrau gwaith hynod ddefnyddiol a phroffiliau i'ch myfyrwyr eu defnyddio wrth gwblhau gwaith am wobr CREST. Gallwch eu lawrlwytho pan fyddwch yn creu eich cyfrif CREST drwy ddilyn y ddolen uchod.

Anogwch i'ch myfyrwyr ddefnyddio'r llyfr gwaith neu broffil i gynllunio a gwneud eu prosiect, gan gadw cofnod o'u holl gynnydd gwych.

Sicrhewch eich bod chi'n ystyried diogelwch a risgiau!

### Adfyfyrio

Felly, mae'ch myfyrwyr wedi bod yn gweithio'n galed ac wedi cwblhau eu prosiect CREST, ond nid dyma'r diwedd ar eu dysgu Nawr, dylen nhw lenwi unrhyw rannau sy'n weddill yn eu lyfr gwaith. Dyma gyfle iddynt adfyfyrio ar yr holl bethau diddorol maent wedi'u dysgu a'r sgiliau hynod werthfawr maent wedi'u defnyddio.

### Cofrestrwch eich prosiect chi am Wobr Efydd CREST

Mae gwaith caled yn haeddu gwobr! Dathlwch ac ardystiwch yr hyn mae'ch myfyriwr wedi'i gyflawni drwy gofrestru eu prosiect am Wobr Efydd CREST. Yn syml iawn:

Mewngofnodwch i'ch cyfrif CREST yn **www.crestawards.org/sign-in** Dewiswch y prosiect a lanlwythwch sampl o lyfrau gwaith y myfyriwr neu dystiolaeth arall o'r prosiect.

Gwiriwch fod y myfyrwyr sy'n cymryd rhan wedi bodloni'r meini prawf ar y dudalen asesiad athrawon.

Yn olaf, cwblhewch y manylion anfon a thalu i archebu eich tystysgrifau crand.

Llongyfarchiadau am gwblhau Gwobr Efydd CREST!

### Beth nesaf?

Does dim rhaid i'r darganfod Gwyddonol ddod i ben yma. Gall myfyrwyr roi cynnig ar y lefel nesaf - CREST Arian.

Rhannwch yr hwyl drwy annog eraill i gymryd rhan mewn prosiectau CREST a rhannu rhyfeddod gwyddoniaeth. Am syniadau am ddim ar sut i gychwyn arni, gweler **www.crestawards.org**

# BRÎFF MYFYRWYR

GWOBR EFYDD

## Her bom bath

Yn y prosiect hwn, byddwch yn creu eich bom bath cartref eich hun. Byddwch yn dysgu am yr hyn sy'n gwneud i'r bomiau bath sïo ac yna, gallwch chi amrywio eich rysáit chi i roi cynnig ar newid faint mae'ch un chi'n sïo.



### Dechrau arni

Bydd angen dau beth arnoch chi ar gyfer y prosiect hwn. Yn gyntaf, bydd angen rysáit ar gyfer bomiau bath cartref arnoch chi.

Yn ail, bydd angen mowld arnoch chi i roi siâp i'ch bom bath.

Gwneud y bom bath: pan fydd gennych chi rysáit, rydych chi'n barod i greu eich bom bath a'i brofi. Bydd y rhan fwyaf o'r ryseitiau yn dweud wrthoch chi i adael y bom bath am ddiwrnod neu ddau i galedi - dylech chi ei osod yn eich mowld er mwyn creu'r siâp iawn.

Profi'r bom bath: rhowch y bom bath mewn dŵr ac ysgrifennu'r sylwadau canlynol i lawr:

Disgrifiwch yr hyn sy'n digwydd.

Saernïo'r sïo: nawr eich bod chi wedi profi eich bom bath cyntaf - eich prototeip - dylech chi greu mwy. Ond y tro hwn, rhowch gynnig ar newid y sïo.... Mae bomiau bath yn sïo oherwydd bod yr asid sitrig yn adweithio gyda'r soda pobi. Felly pan fyddwch yn creu rhagor o fomiau bath, newidiwch faint o soda pobi rydych chi'n ei ddefnyddio i weld beth sy'n digwydd. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cynnal prawf teg. Bydd angen cadw llawer o bethau'n gyson.

Dylech chi eu gwneud yn yr un mowld ac o'r un maint.

Dylech chi eu gadael i galedi am yr un hyd o amser.

Dylech chi roi'r bomiau bath yn yr un cyfaint o ddŵr.

Dylai'r dŵr fod o'r un tymheredd.

Dylech chi wneud yr un math o sylwadau ar gyfer pob un.

Y canlyniadau: ysgrifennwch eich holl sylwadau mewn tabl o ryw fath. Drwy wneud hynny, bydd yn haws i'w cymharu. Penderfynwch ba fath o fom bath oedd eich hoff un. Ailysgrifennwch y rysáit fel canllaw cam wrth gam â lluniau.

### Pethau i'w hystyried

Pa mor hir mae'n cymryd i'r bom bath wasgaru?

Faint o soda pobi creodd y sïo mwyaf?

Faint o soda pobi creodd y sïo lleiaf?

Rhowch y ryseitiau gwahanol yn nhrefn creu sïo.

Faint o 'sïo' sydd?

Sut mae'r dŵr yn newid?

A yw'n newid lliw? A yw'n troi'n 'seimllyd'?

### Adnoddau defnyddiol

Ar gyfer bomiau bath, gallwch ddod o hyd i ryseitiau ar y rhyngrwyd yn aml drwy chwilio am "homemade bath bom". Efallai y byddwch chi hefyd yn gallu dod o hyd i ryseitiau mewn llyfrau yn y llyfrgell. Ar gyfer y mowld, gallech chi brynu un, ailgylchu rhywbeth neu wneud un eich hunan.

# BRÎFF MYFYRWYR

## GWOBR EFYDD



### Iechyd a Diogelwch

Mae gwaith prosiect gwyddonol yn ddeinamig ac yn gyffrous, ond gall hefyd peri ambell risg. I osgoi damweiniau, sicrhewch eich bod chi'n glynu wrth y canllawiau iechyd a diogelwch canlynol cyn dechrau arni:

- sicrhewch eich bod yn gwybod os yw'r deunyddiau neu'r dulliau'n beryglus.
- rhaid asesu'r risgiau (meddyliwch am yr hyn a allai fynd o'i chwith a pha mor ddifrifol y gallai fod);
- penderfynwch yr hyn mae angen i chi ei wneud er mwyn lleihau'r risg (megis gwisgo cyfarpar amddiffynnol personol, gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac yn y blaen);
- sicrhewch fod eich athro'n cytuno â'ch cynllun a'ch asesiad ris

Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth yn dod o ffynhonnell ddibynadwy.

Cwblhewch asesiad risg bob tro a gofynnwch i'ch athro ei wirio cyn i chi ddechrau ar eich arbrawf.

Peidiwch byth â defnyddio unrhyw beth ar eich croen a wnaed mewn labordy neu sy'n defnyddio cemegion labordy.

### Cofiwch!

Nid data'n unig yw gwyddoniaeth Bydd y prosiectau mwyaf llwyddiannus yn dangos sgiliau cyfathrebu da a syniadau gwreiddiol sy'n mynd i'r afael â phroblemau'r byd go iawn.

Edrychwch ar y byd o'ch cwmpas ac ystyried yr holl ffyrdd arloesol y gallech chi fynd i'r afael â'r her. Hyd yn oed os bydd pethau'n mynd o chwith, defnyddiwch hyn i ddangos yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu. Cofiwch ddefnyddio'r ffurflen proffil myfyriwr i helpu i roi strwythur i'ch prosiect.